# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## Adroddiad (SLC(3) 24-08)

**Dyddiad: 4 Tachwedd 2008**
**Amser: 8.15am**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd**

### Cynnwys

Cyfarfu'r pwyllgor ar 4 Tachwedd 2008. Roedd yr Aelodau pwyllgor a ganlyn yn bresennol yn y cyfarfod: Dr Dai Lloyd AC, Eleanor Burnham AC, Mark Isherwood AC, Alun Davies AC a Joyce Watson AC.

### Mae adroddiadau'r pwyllgor i'r Cynulliad fel a ganlyn:

### Offerynnau y bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2

### Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)

### SLC212 - Rheoliadau Milheintiau a Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Ffioedd) (Cymru) 2008

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 16 Hydref 2008. Fe'u gosodwyd ar 17 Hydref 2008. Yn dod i rym ar 7 Tachwedd 2008.

Ceir Adroddiad y pwyllgor o dan Reol Sefydlog 15.2 ar yr offeryn statudol hwn sy'n agored i gael ei ddirymu yn unol â phenderfyniad y Cynulliad (y weithdrefn negyddol) yn

Atodiad 1 yr Adroddiad hwn**.**

### Eitemau eraill o fusnes

### Mesur Arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol (Cymru) 200-

Trafododd y pwyllgor Fesur Arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol (Cymru) 200-, a osodwyd ar 22 Medi 2008. Penderfynodd y pwyllgor graffu ar y Mesur drafft o dan Reol Sefydlog 15.6 (ii) ("pa mor briodol yw darpariaethau mewn Mesurau Cynulliad… sy'n rhoi pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth i Weinidogion Cymru…") a gwahodd Brian Gibbon AC, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol i roi tystiolaeth i'r pwyllgor.

### Ymchwiliad i'r gwaith craffu ar is-ddeddfwriaeth a phwerau dirprwyedig

Cynhaliodd y pwyllgor ei drydedd sesiwn tystiolaeth lafar ar yr ymchwiliad i'r gwaith craffu ar is-ddeddfwriaeth a phwerau dirprwyedig, gan edrych ar sut y mae'r broses yn gweithio ar hyn o bryd a phenderfynu beth yw'r ffordd orau o gyflawni ei gylch gwaith mwy eang. Clywodd y pwyllgor dystiolaeth gan Kay Powell, Cynghorydd Polisi a Huw Williams, Geldards LLP sy'n cynrychioli Cymdeithas y Cyfreithwyr.

**Dr Dai Lloyd AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**
**4 Tachwedd 2008**

## Atodiad 1

### Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

**(SLC(3)-24-08)**

### SLC212

### Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

### O dan Reol Sefydlog 15.2 bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i'r offeryn a ganlyn.

### Teitl: Rheoliadau Milheintiau a Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Ffioedd) (Cymru) 2008

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys o ran Cymru, yn darparu i Weinidogion Cymru godi ffioedd am weithgareddau sy'n ofynnol o dan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1003/2005, Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1168/2006, Rheoliad (EC) Rhif 2160/2003 a Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Cymru) 2006. Rhestrir y gweithgareddau yn rheoliad 3(1). Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu Rheoliadau Milheintiau a Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Ffioedd) (Cymru) 2007 (O.S. 2007/2496 (Cy.215)).

## Rheol Sefydlog 15.2

## Nodwyd y pwynt a ganlyn i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 15.2:-

Nid yw'r rheoliad Cymraeg ar gyfer Ffioedd wedi'i rifo ac mae'r paragraff cyntaf wedi'i rifo'n anghywir fel (3). Dylai'r rheoliad ar gyfer Ffioedd gael ei rifo fel 3 a dylai'r paragraff cyntaf gael ei rifo fel (1). O ganlyniad i hyn, mae'r paragraff sy'n darllen fel (4) wedi'i rifo'n anghywir a dylai ddarllen fel (2) ac mae'r paragraff sy'n darllen fel (5) hefyd wedi'i rifo'n anghywir a dylai ddarllen fel (3).

O ganlyniad i'r ffaith bod rhifau'r rheoliad a'r paragraffau yn wallus ar hyn o bryd, nid yw'n bosibl cysylltu'r bobl briodol a fydd yn talu'r ffioedd â'r gweithgareddau fel y nodir gan nad oes paragraff (1) yn bodoli ar hyn o bryd.

Mae'r rheoliad Cymraeg ar gyfer Dirymiad wedi'i rifo'n anghywir fel 3, ac er mwyn cywiro'r anghysondeb, dylid ei ddiwygio i ddarllen fel 4.

O ganlyniad, ymddengys fod gwaith drafftio'r rheoliad Cymraeg ar gyfer Ffioedd a Dirymiad yn wallus neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol. [Rheol Sefydlog 15.2 (vi)].

**Dr Dai Lloyd AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**
**4 Tachwedd 2008**

Mae'r Llywodraeth yn nodi ac yn derbyn y pwynt adrodd a grybwyllir uchod. Caiff y gwallau ar rifo'r paragraffau yn y rheoliadau Cymraeg yr adroddwyd arnynt eu cywiro pan gyhoeddir y rheoliadau.